Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol : Blwyddyn Ewropeaidd ar gyfer Goresgyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru'n adrodd wrth y Pwyllgor am ei chynlluniau i symud ymlaen â'r model 'archwiliad tlodi' ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y lefel ddatganoledig fel y cynigir gan Rwydwaith Gwrth-Dlodi Cymru. (Tudalen 17)

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor
Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru offeryn wedi ei sefydlu eisoes, sef y Porth i Bolisïau, ar gyfer asesu pob un o'i phrif bolisïau. Mae 'n cynnwys cyfeiriadau penodol at yr angen i ystyried yr effeithiau ar yr unigolion a'r cymunedau tlotaf. Yn ychwanegol, ac yn rhan o'r broses Porth i Bolisïau, defnyddir rhestr gyfeirio ar gyfer prawfesur polisïau gwledig, sy'n cynnwys cwestiwn penodol ar yr effaith ar deuluoedd incwm-isel yn yr ardaloedd gwledig.

Yn ogystal ag ymgynghori â chydweithwyr yn fewnol, holir y swyddogion , yn ystod y "Cam Trothwy", pa randdeiliaid allanol y byddant yn eu cynnwys yn natblygiad eu polisi, a sut y byddant yn gwneud hynny.

Goblygiadau Ariannol
Byddai mabwysiadu proses arall, dra thebyg i'r Porth i Bolisïau, yn dyblygu ymdrech ac amser ar adeg pan fo Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio lleihau costau ac ymdopi gan ddefnyddio llai o adnoddau..

Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru'n adrodd wrth y Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd ar y ffordd y mae'n sicrhau bod pobl sy'n profi tlodi yn cymryd rhan lawn yng ngweithgaerddau EY2010 yng Nghymru, o'r trefnu i'r gweithredu a'r cynllunio ar gyfer y dyfodol. (Tudalen 18)

Ymateb: Derbyn

Mae Corff Gweithredu Cenedlaethol y DU (NIB) yn deall yn eglur y dylai unigolion sy'n profi tlodi a'u hallgáu yn gymdeithasol fod yn rhan ganolog o'r gweithgareddau mewn cysylltiad â'r Flwyddyn. Roedd hynny, felly, yn un o'r meini prawf yr aseswyd pob cais am gyllid gyferbyn â hwy.

Mae NIB y DU hefyd wedi defnyddio grŵp cyfeirio o sefydliadau, yn bennaf, sy'n cynrychioli unigolion sy'n dioddef tlodi ac allgáu cymdeithasol, i gynorthwyo gyda datblygu ac arwain gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ledled y DU mewn perthynas â'r Flwyddyn.

Amlygwyd hynny gan bob un o'r digwyddiadau lansio a gynhaliwyd ledled y DU (gan gynnwys y digwyddiad *'Be Heard'* a gynhaliwyd yng Nghymru yn lle

digwyddiad lansio), drwy geisio rhaniad 60:40 rhwng unigolion a oedd yn dioddef tlodi ac allgáu cymdeithasol, a gwneuthurwyr polisi. Dilynwyd fformat cyffelyb ym mhob un o'r digwyddiadau, drwy roi cyfle i'r unigolion a oedd yn dioddef tlodi ac allgáu cymdeithasol i holi'r gwneuthurwyr polisi a'u dal yn atebol, ac i fynegi eu safbwyntiau a'u profiadau eu hunain..

Bydd digwyddiad Sefydliad Bevan hefyd yn cynnwys unigolion sy'n wynebu tlodi ac allgáu cymdeithasol; a nod penodol y digwyddiad fydd dod o hyd i'r 'hyn sy'n gweithio' yn nhermau mynd i'r afael â'r materion hynny, a rhannu'r arferion gorau.

Er mwyn llunio gwaddol, bydd yr allbynnau o'r digwyddiadau lansio yn cael eu dosbarthu i Weinidogion y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru, a byddant yn ychwanegiad at y sylfaen bresennol o dystiolaeth a ddefnyddir i ddatblygu polisi. Roedd yr angen i ddarparu gwaddol parhaol yn rhan hefyd o'r meini prawf ar gyfer cyllido gweithgareddau'r Flwyddyn. O ganlyniad, bydd ystod o gynhyrchion gwaddol yn cael eu creu. Enghreifftiau o hynny fydd adroddiadau cynadleddau, ffilmiau a fideos byr, gwefannau, pecynnau cymorth, etc. Yng Nghymru, bydd y cynnyrch a ddatblygir gan Sefydliad Bevan yn cynnwys ffilmiau a deunyddiau ysgrifenedig. Seilir y cyfan ohonynt ar y digwyddiadau a gynhelir fel rhan o'r Flwyddyn, a bydd y mwyafrif yn cynnwys mewnbwn gan unigolyn sy'n profi tlodi ac allgáu cymdeithasol. Bydd y rhain yn werthfawr iawn ar gyfer datblygu polisi ar dlodi yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol
Nid oes costau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru yn adrodd wrth y Pwyllgor tua dechrau 2011 ar brif ganlyniadau gweithgareddau EY2010 yng Nghymru a'i gynllun gweithredu i sicrhau gwaddol o'r canlyniadau cychwynnol hynny. (Tudalen 18)

Ymateb: Derbyn

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yw adran arweiniol Llywodraeth y DU (sef yr Aelod-wladwriaeth) mewn perthynas â'r Flwyddyn. O ganlyniad, bydd canlyniadau'r gweithgareddau EY2010 yn Nghymru yn rhan o adroddiad cyffredinol a baratoir gan y DU ar gyfer yr UE. Ar y cyd â'r DWP, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau yr anfonir yr adroddiad, a fydd yn amlygu canlyniadau'r gweithgareddau yng Nghymru ac unrhyw waddol a ddaw o'r canlyniadau hynny, at y Pwyllgor pan fydd ar gael.

Mae sicrhau gwaddol parhaol yn hanfodol i lwyddiant EY2010. Yr oedd cynnwys hynny fel un o dri o amcanion y flwyddyn ar lefel y DU yn tanlinellu ei bwysigrwydd. Yn ychwanegol, un o'r criteria allweddol ar gyfer dewis a chyllido gweithgareddau oedd lefel eu cyfraniad i waddol parhaol; a

gofynnwyd i sefydliadau nodi sut y byddai'u gweithgareddau yn cyfrannu i waddol parhaol. Rhoddwyd grantiau i'r gweithgareddau hynny a oedd yn amlwg yn cyfrannu i waddol parhaol; a bydd y gweithgareddau'n cael eu monitro a'u hasesu er mwyn canfod i ba raddau y cyrhaeddwyd yr amcan hwnnw mewn gwirionedd.

Mae'r amcan 'gwaddol' yn cyfeirio'n benodol at amlygu a lledaenu arferion da, a bydd llawer o'r gweithgareddau EY2010 yn cyfrannu at hynny drwy ddwyn at ei gilydd bobl sy'n dioddef tlodi, ymarferwyr a chyflenwyr gwasanaethau, gwneuthurwyr polisi a Gweinidogion ledled y DU, i drafod a rhannu profiadau a thystiolaeth ynglŷn â'r 'hyn sy'n gweithio' wrth fynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol.

Bwriedir i waddol y Flwyddyn gynnwys gwell ymwybod o amlder, achosion a chanlyniadau tlodi ledled y DU. Nod llawer o'r gweithgareddau fydd cyfrannu at hyn drwy gynnal amrediad o fentrau codi ymwybyddiaeth. Mae'n bwysig bod tystiolaeth pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o dlodi yn cyfrannu at yr ymwybod uwch a geisir, a bydd llawer o'r gweithgareddau EY2010 yn ceisio sicrhau hynny. Er enghraifft, bydd rhaglen nodwedd ar fywydau pedwar o bobl sydd â phrofiad o dlodi ac o'u hallgáu'n gymdeithasol, gan gynnwys un dyn ifanc o Gymru, yn cael ei darlledu ar y Sianel Gymunedol. Bydd hyn yn taflu goleuni newydd a grymus ar y profiad o dlodi ac yn herio rhai o'r mythau a'r stereoteipiau y deuir ar eu traws yn rhy aml o lawer. Yn yr un modd, mae'r tri digwyddiad lansio o fewn y DU ynghyd â'r achlysur *Be Heard* wedi rhoi lle canolog i bobl sydd â phrofiad o dlodi, mewn trafodaeth ar ystyr tlodi yng Nghymru heddiw, a'r ffordd orau y gall y Llywodraeth ymateb iddo.

Rhaid cydnabod bod rhai canlyniadau yn anos i'w mesur nag eraill, a bod arddangos 'priodoliad' bob amser yn her (h.y. sut y gellir dangos beth fu effaith gweithgareddau EY2010 ar y canlyniadau 'meddalaf' megis ymwybod uwch?). Fel Adran arweiniol y Llywodraeth, mae DWP wedi ymrwymo i sefydlu dull cadarn o fonitro a gwerthuso a fydd yn ei galluogi wneud asesiad da o'r hyn a gyflawnwyd gan EY2010.

Dewiswyd y DWP gan y Comisiwn Ewropeaidd fel astudiaeth achos mewn dyfnder ar gyfer gwerthuso, ac y mae'r Adran ar hyn y bryd ar ganol trafodaethau gyda chontractwyr y Comisiwn. Mae gan y DWP hefyd broses o adrodd yn fisol ar y cynnydd a wneir, proses o archwilio "anariannol", a threfn archwilio ariannol. Bydd gofyn i bob darparwr, ar ôl cwblhau ei weithgareddau, gyflwyno adroddiad terfynol a fydd yn asesu i ba raddau y llwyddwyd i gyrraedd amcanion y Flwyddyn – gan gynnwys yr amcan o adael gwaddol parhaol.

Bwriad y DWP yw paratoi adroddiad 'diwedd Blwyddyn' mewnol a fydd yn cydgrynhoi canfyddiadau monitro a gwerthuso cydrannau unigol o'r Rhaglen, yn ogystal â chanlyniadau gwerthusiad y Comisiwn. Bydd hyn yn cynnwys argymhellion a chofnod o'r gwersi a ddysgwyd.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr adroddiad hwnnw pan ddaw i law, ac yn adrodd ar y canlyniadau a ddaw i'r amlwg o'r gweithgareddau Cymreig ac unrhyw waddol o'r canlyniadau hynny.

Goblygiadau Ariannol
Nid oes costau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru'n adrodd wrth y Pwyllgor ar y ffordd y mae'n bwriadu defnyddio'r Dull Cydgysylltu Agored (OMC) ar gyfer Amddiffyn Cymdeithasol a Chynhwysiant Cymdeithasol o hyn ymlaen i sicrhau y ceir gwaddol o weithgareddau EY2010 ar lefel yr Undeb Ewropeaidd ac i rannu arferion gorau o weithgareddau yng Nghymru. (Tudalen 19)

Ymateb: Derbyn

Mewn perthynas â'r Dull Cydgysylltu Agored (OMC) ar gyfer Amddiffyn Cymdeithasol a Chynhwysiant Cymdeithasol, mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio'n glòs â chymheiriaid o adran arweiniol y llywodraeth, sef yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), gyda golwg ar sicrhau bod safiad y DU yn adlewyrchu ein safbwyntiau ni, a bod enghreifftiau o'r ymarfer gorau o Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn y broses OMC.. Tanlinellir hyn yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol y DU ar Gynhwysiant Cymdeithasol..

Ynglŷn ag EY2010, ymgysylltodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gynnar â pharatoadau'r DU ar gyfer y Flwyddyn, er mwyn sicrhau bod Cymru'n cyfranogi yn y gweithgareddau EY2010.

Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad o 'r Swyddfa UE ym Mrwsel hefyd wedi cyfarfod â'r Comisiwn i drafod gweithgareddau yng Nghymru, a dilyniant posibl ar ôl 2010.

Yn rhan o'r gweithgareddau EY2010 bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu seminar ym Mrwsel ar dlodi plant, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol, o Gymru (CLlLC, Plant yng Nghymru ac Achub y Plant), a hefyd ar lefel yr UE (y Comisiwn Ewropeaidd, Aelodau o Senedd Ewrop, Llywyddiaeth Felgaidd yr UE ac Eurochild, sef corff anllywodraethol Ewropeaidd sy'n gweithio i wella ansawdd bywyd plant a phobl ifanc). Disgwyliwn i'r digwyddiad hwn fod yn gyfrwng i rannu gyda phartneriaid o'r UE rai o'r syniadau, safbwyntiau ac arferion gorau sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru..

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adnabyddus fel corff sy'n cydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau eraill ym maes cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys y gyfres ddiweddar o

ddigwyddiadau ymgynghori, a gynhelir ledled Cymru ynglŷn â'n Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Cyflawni newydd. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i rannu arferion gorau gyda gwledydd eraill o fewn fframwaith y Pedair Gwlad (gyda'r Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr) yn ogystal ag ar lefel yr UE.

Mae DWP yn disgwyl cychwyn gweithio yn gynnar yn 2011ar y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol (NAP) nesaf ar Gynhwysiant Cymdeithasol. Bydd mecanweithiau newydd ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid yn sicrhau cyfranogiad cyrff anllywodraethol, y Llywodraethau Datganoledig ac Awdurdodau Lleol yn y gwaith o ddatblygu'r NAP. Trwy gymryd rhan yn y gwaith hwnnw, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod y NAP yn adlewyrchu cynlluniau a pholisïau ledled y DU, gan gynnwys adlewyrchu'r gwahanol flaenoriaethau, heriau a dulliau cenedlaethol o fynd i'r afael â thlodi.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes costau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru'n cynnwys yn ei adroddiad i'r Pwyllgor ar weithgareddau gwaddol sut y bydd yn defnyddio canlyniadau gweithgareddau EY2010 yng Nghymru wrth weithredu rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd. Byddai hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arferion gorau gyda Phwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan. (Tudalen 19)

Ymateb: Derbyn

Mae Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru wedi eu halinio'n glòs â pholisïau'r UE ar ymladd tlodi ac allgáu cymdeithasol; ac y mae'r "cyfatebolrwydd" polisi hwnnw yn un o'r gofynion drwy gydol y broses o lunio a chyflawni'r rhaglenni.

Mae Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn cyfrannu'n helaeth yn y maes hwn drwy helpu pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar i gael mynediad at hyfforddiant a gwaith, a chynorthwyo grwpiau hyglwyf i ymuno â'r farchnad lafur. Rhoddwyd y pwyslais o'r dechrau ar ymgysylltu â'r rhai sydd bellaf o gyrraedd y farchnad lafur

Mae Rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cefnogi mentrau adfywio ffisegol mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ogystal â hyrwyddo datblygiad economaidd ac amddiffyn yr amgylchedd yn gyffredinol.

Ym marn Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n bwysig sicrhau cyfatebiaeth rhwng mentrau byrdymor megis y rhai sydd dan sylw a rhaglenni saith

mlynedd yr UE, sy'n amcanu i fynd i'r afael â materion strwythurol hirdymor yn economi Cymru. Rhaid sicrhau nad yw 'r arferion gorau perthnasol a'r canlyniadau positif yn mynd ar goll ar ddiwedd y Flwyddyn. Yn hytrach, pan fo'n berthnasol a phriodol, rhaid gwneud y defnydd gorau ohonynt wrth ddatblygu a chyflawni prosiectau'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth am y gweithgareddau a ymgymerir drwy'r fenter bresennol ar gael i Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewrop. Gall y partneriaid wedyn gynnal trafodaeth lawn ar y canlyniadau a'r arferion gorau a ganfyddir, ac ystyried y posibilrwydd o integreiddio ac alinio pellach â'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes costau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru'n adrodd ar y ffordd y bydd y strategaethau y bydd yn ofynnol eu datblygu o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cymryd i ystyriaeth y dystiolaeth ar dlodi plant a lles plant a gesglir gan ymchwiliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ac a geir o weithgareddau EY2010 (Tudalen 22)

Ymateb: Derbyn

Bydd y dystiolaeth ynglŷn â thlodi plant a lles plant, a gesglir gan ymchwiliad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, ynghyd â'r safbwyntiau a gesglir yn ystod gweithgareddau EY2010, yn cael eu hystyried wrth baratoi'r fersiwn derfynol o'r Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Cyflawni, a ddosbarthwyd ar gyfer ymgynghori dros gyfnod o ddeuddeng mis ym Mai 2010. Byddwn hefyd yn cynnwys unrhyw ganfyddiadau sylweddol yn y canllawiau a ddatblygir i gefnogi Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru). Yn ychwanegol at hynny, byddwn yn rhoi'r wybodaeth ar gael ar wefan Datrys Tlodi Plant – Cymru, er mwyn i sefydliadau eraill ei chymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu'u strategaethau tlodi plant, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes costau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru'n adrodd wrth y Pwyllgor pa gamau y mae'n eu cymryd i helpu i sicrhau cysondeb wrth fesur lles plant ar lefel yr Undeb Ewropeaidd. (Tudalen 22)

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi gwneud llawer i sefydlu mesur ar gyfer lles, drwy gyfrwng Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn fodel o arfer da y gellir, drwy fanteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan y Flwyddyn, ei rannu gyda phartneriaid yn yr UE , i'w helpu i ddatblygu eu fersiynau eu hunain o'r Monitor. Ar y hyn o bryd, mae'r Monitor yn cael ei ddiweddaru, a disgwylir ei gyhoeddi yn ystod 2011.

Goblygiadau Ariannol
Nid oes costau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 8. Bod Llywodraeth Cymru'n adrodd wrth y Pwyllgor erbyn Ebrill 2011 ar y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu dangosyddion cyffredin ar gyfer tlodi ac allgáu cymdeithasol ar lefel yr UE. (Tudalen 24)

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes yn defnyddio diffiniadau tlodi safonol y DU, sy'n galluogi cymharu oddi mewn i'r DU. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar ar Reoliadau Diffinio Tlodi Plant (Cymru) 2010 yn cefnogi defnyddio diffiniadau tlodi presennol y DU.

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfrannu i safbwynt Llywodraeth y DU ynglŷn â dangosyddion cyffredin ar gyfer yr UE; ond ar sail y trafodaethau presennol, credwn y byddai modd alinio ein dangosyddion â'r rhai a argymhellir lefel yr UE o dan y strategaeth Ewrop 2020, ac y byddai cymariaethau ystyrlon ar draws yr UE yn arf polisi defnyddiol ar gyfer ymosod ar dlodi ac allgáu cymdeithasol.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes costau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 9. Bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn adrodd wrth y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol am y gwaith paratoi a'r cynlluniau ar gyfer Blwyddyn Ewropeaidd Gwirfoddoli 2011 a'r ffordd y bydd yn cydweithio â sefydliadau o Gymru sy'n rhanddeiliaid ac yn eu cefnogi. (Tudalen 26).

Ymateb: Derbyn

Mae Uned Trydydd Sector Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod mewn trafodaethau gyda'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, ac wedi mynegi dymuniad Cymru i gymryd rhan ym Mlwyddyn Gwirfoddoli Ewrop, 2011. Bydd rhaid i unrhyw gyfraniad o Gymru at gostau'r Flwyddyn honno ddod allan o gyllideb 2011/12 (yn unol â gorchymyn Brwsel). Rydym yn aros am benderfyniad a fydd cyllid ar gael ai peidio ar gyfer y Flwyddyn honno. Os na, bydd modd fodd bynnag inni ddal i ddefnyddio'r brandio.

Y dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen waith genedlaethol yw 15 Medi 2010. Y bwriad yng Nghymru yw .cydasio'r Flwyddyn honno â'r mentrau gwirfoddoli presennol

Goblygiadau Ariannol

Oddeutu £70k.

Argymhelliad 10. Bod Llywodraeth Cymru'n clustnodi amser ar gyfer trafodaeth flynyddol ar thema pob Blwyddyn Ewropeaidd a'r gweithgareddau cysylltiedig y bwriedir eu cynnal yng Nghymru, fel rhan o fusnes y Llywodraeth mewn cyfarfod llawn. (Tudalen 26)

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i gefnogi a chodi ymwybyddiaeth o bob Blwyddyn Ewropeaidd drwy gynnal gweithgareddau cysylltiedig, ac yn ceisio cael dadl flynyddol mewn cyfarfod llawn.

Goblygiadau Ariannol

Nid oes costau ariannol yn gysylltiedig â'r argymhelliad hwn.

Carwyn Jones, Prif Weinidog